CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 2

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Vivienne Stern,
Prif Weithredwr, Universities UK

Vanessa Wilson,
Prif Weithredwr, Universities Alliance

Rachel Hewitt,
Prif Weithredwr, Million Plus

Dr Tim Bradshaw,
Prif Weithredwr, Grŵp Russell

Clare Marchant,
Prif Weithredwr, UCAS

Gordon McKenzie,
Prif Weithredwr, Guild UE

Alastair Sim, Prif Weithredwr, Universities Scotland

Cc. Philip Blaker
Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru

22 Mawrth 2023

**Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Annwyl gyfeillion,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag ymchwiliad hirdymor i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Fel y gwyddoch, mae system addysg Cymru'n cael ei diwygio'n sylweddol. Sefydlwyd y Cwricwlwm i Gymru ("y Cwricwlwm") o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Cyflwynwyd y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a bydd yn dod yn statudol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Bydd y Cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol wrth i'r carfanau hyn symud drwy'r ysgol uwchradd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Caiff y Cwricwlwm ei lywio gan 'bedwar diben' a'i nod yw canolbwyntio ar addysgu a dysgu 'yr hyn sy'n bwysig' o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Dywed Llywodraeth Cymru mai nod y Cwricwlwm yw "[p]aratoi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol – dinasyddion Cymru a dinasyddion y byd."[1]

Bydd y Cwricwlwm yn cael ei addysgu i ddysgwyr rhwng 3 ac 16. Mae angen diwygio cymwysterau yn sylweddol, a chaiff hyn ei lywio gan y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, Cymwysterau Cymru. Er nad yw safonau A ac AS yn cael eu diwygio, ac er nad yw peth o sylwedd manwl cymwysterau'r dyfodol yn 16 oed yn gwbl hysbys eto, rydym am fesur barn y sector addysg uwch ynghylch a fydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach, a sut y bydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i Gymry ifanc a Chymru.

Fel rhan o'n gwaith i'r diwygiadau addysg pwysig a phellgyrhaeddol hyn, byddwn yn croesawu eich barn yn fawr[2] ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth rydych chi'n ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a'r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau'r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn croesawu cyflwyniadau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o

---

[1] Llywodraeth Cymru, 'Mae Addysg yn Newid'

[2] Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddyfodol cymwysterau ac nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith hwnnw mewn unrhyw ffordd. Byddem yn awyddus iawn i glywed eich barn fel y gallant lywio ein gwaith ein hunain yn y maes hwn.

weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod (SeneddPlant@Senedd.Cymru). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.